Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 15 Chwefror 2023 |
| **TEITL** | **Cyllideb Sylfaenol 2023/24** |
| **PWRPAS** | Cyflwyno i'r Cydbwyllgor :<br>• Cyllideb Sylfaenol GwE 2023/24 (Atodiad 1)<br>• Cyfraniadau Ariannol yr Awdurdodau (Atodiad 2) |
| **ARGYMHELLIAD** | Mabwysiadu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2023/24 fel ei cyflwynir yn Atodiad 1. |
| **AWDUR** | Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd |

## 1. Cyllideb Sylfaenol ("sefyll yn llonydd")

1.1 Mae cyllideb GwE yn esblygu'n barhaus ac yn adlewyrchu ymrwymiadau busnes craidd y Model Cenedlaethol a nifer sylweddol o brosiectau a ariennir trwy grant.

1.2 Mae effaith ariannol chwyddiant/cynnydd mewn prisiau wedi'u hamcangyfrif a'u cynnwys yn y gyllideb sylfaenol (ar sail "sefyll yn llonydd"), gan gynnwys codiadau cyflog a chynnydd CPI (gweler Atodiad 1). Argymhellir sefydlu cyllideb o £17,993,147 ar gyfer 2023/24, sef yr un swm ag yn 2022/23.

1.3 Amlygir cyfraniadau ariannol yr Awdurdodau yn Atodiad 2.

## 2. Targed Arbedion

2.1 Mae’r gyllideb atodol yn adlewyrchu penderfyniad gan y Cynghorau i beidio ychwanegu chwyddiant yn llawn, ac felly i weithredu toriad yn 2023/24. Golygai hyn doriad yn nhermau real o 5.25% ar ôl cynnydd mewn costau.

2.2 Mae’r actwari yn adolygu sefyllfa’r Gronfa Bensiwn pob tair blynedd, gyda’r adolygiad diweddaraf, wedi’i gwblhau yn Rhagfyr 2022. Canlyniad hyn yw gostyngiad yng nghyfraniad y cyflogwr cyfwerth â £103,964 y flwyddyn. Mae hyn yn lleihau’r toriad a wynebir i 2.60%.

2.3 Mae swm (£102,112) yn ymddangos ar y llinell “Arbedion i’w Darganfod” yn y gyllideb, sy’n cyfateb i’r 2.60% uchod.

2.4 Ar hyn o bryd, mae’r wybodaeth sydd i law yn annigonol ar gyfer amlygu goblygiadau ariannol grantiau penodol yn 2023/24.

## 3. Y Gronfa Gyffredinol

3.1 Mae’r adroddiad ‘Cyllideb GwE 2022/23 - Adolygiad Chwarter 3’ (eitem flaenorol ar raglen y Cydbwyllgor) yn amcangyfrif bydd oddeutu £481,996 yn y gronfa gyffredinol ar 31/03/2023, sy’n llai na 3% o drosiant GwE ac yn yr amgylchiadau cyfredol yn swm addas i’w gadw wrth gefn.

---

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Cyllideb Sylfaenol GwE ar gyfer 2023/24

Atodiad 2 - Cyfraniadau’r Awdurdodau Lleol 2023/24

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

---

**Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad